

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy. XX)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

Gorchymyn Senedd Cymru
(Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio)
2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236) ("Gorchymyn 2007").

Gwnaed Gorchymyn 2007 a gorchmynion diwygio dilynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond trosglwyddwyd y pwerau galluogi i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017. O ganlyniad, dyma'r Gorchymyn cyntaf sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynnal etholiadau Senedd Cymru.

Mae enw'r Gorchymyn hwn yn cynnwys y term Senedd Cymru yn sgil y newid a wneir i enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ("Deddf 2020").

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Gorchymyn 2007 i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi eu gwneud gan Ran 2 o Ddeddf 2020. Er enghraifft, mae erthyglau 4 i 35 yn rhoi cyfeiriadau at yr enw newydd, o ganlyniad i Ran 2 o Ddeddf 2020, yn lle cyfeiriadau yn y ffurflenni hyn at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth amrywiol i roi effaith i Ran 3 (etholiadau) o Ddeddf 2020 ac o ganlyniad i'r Rhan honno. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf honno yn gwneud darpariaeth i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ac i estyn yr etholfraint i ddinas syddion tramor cymhwysol yn etholiadau Senedd Cymru.

Mae erthygl 36 yn diwygio erthygl 14 o Orchymyn 2007 i sicrhau nad yw troseddau a gyflawnir o dan y Gorchymyn mewn perthynas â darparu gwybodaeth anwir ond yn gymwys i'r rheini sydd wedi cyrraedd yr oedran pleidleisio.

Mae erthyglau 37 a 38 yn gwneud diwygiadau amrywiol i Atodlen 1 (pleidleisio absennol) ac Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru) i Orchymyn 2007, yn y drefn honno. Mae'r holl ddiwygiadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Rhan 3 o Ddeddf 2020 yn darparu, mewn etholiadau i fod yn aelod o'r Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny, y caiff person sydd wedi cyrraedd 16 oed ac a fyddai fel arall â'r hawl i bleidleisio, bleidleisio yn yr etholiad hwnnw ac yn gwneud darpariaeth o ganlyniad i hyn.

Yn benodol mae erthygl 37(2) yn diwygio paragraff 1(9) o Atodlen 1 ac yn mewnosod paragraff newydd (e). Wrth wneud cais am bleidleisio absennol yn etholiadau Senedd Cymru, mae'n ofynnol i berson ddarparu'r cyfeiriad lle y mae neu y bydd wedi ei gofrestro. Mae paragraff 1(9) o Atodlen 1 yn galluogi pleidleisiwr o'r lluoedd arfog, cleifion mewn ysbytai meddwl nad ydynt yn droseddwyr a gedwir yn gaeth, personau sydd ar remând yn y ddalfa a phersonau digartref i ddarparu cyfeiriadau penodol at ddiben gwneud cais. Mae Deddf 2020 yn gwneud darpariaeth i bersonau sy'n blant sy'n derbyn gofal, neu sydd wedi bod yn blant sy'n derbyn gofal, wneud datganiad o gysylltiad lleol ag (i) cyfeiriad yng Nghymru y mae'r person wedi preswylio ynddo yn flaenorol; neu (ii) cyfeiriad cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru y mae'r person hwnnw wedi preswylio ynddo yn flaenorol. Mae paragraff newydd 1(9)(e) yn caniatâu i ymgeisydd ddefnyddio unrhyw gyfeiriad o'r fath at ddiben gwneud cais i fod yn bleidleisiwr absennol.

Mae erthygl 37(7) yn mewnosod paragraff 14A yn Atodlen 1 sy'n sicrhau nad yw gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys mewn cofnod neu restr o bleidleisiwr absennol sy'n ymwneud â pherson o dan 16 oed yn cael ei datgelu oni bai ei bod yn angenrheidiol at ddiben etholiad y bydd y person ifanc hwnnw â'r hawl i bleidleisio ynddo neu mewn cysylltiad â'r etholiad hwnnw.

Mae erthygl 38 yn gostwng oedran y rheini sydd â'r hawl i fynd gyda phleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio yn

rhinwedd rheol 41(1)(b) o Atodlen 5 i 16. Mae paragraff (b) yn gostwng oedran y rheini y caiff y Swyddog Llywyddu gyfyngu mynediad iddynt i orsaf bleidleisio i 16 oed. Mae paragraff (c) yn diwygio rheol 48(3)(b) o Atodlen 5 mewn modd tebyg i ostwng oedran y rheini sydd â'r hawl i fynd gyda pherson sy'n bleidleisiwr ag anableddau i 16 oed.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 o ganlyniad i Ran 4 (anghymhwys) o Ddeddf 2020.

Mae erthygl 43 yn diwygio erthygl 34 (datganiadau anwir mewn papurau enwebu etc.) o Orchymyn 2007 er mwyn darparu bod datganiad o ran cymhwystera ymgeisydd ar gyfer etholiad Senedd Cymru yn cynnwys datganiad nad yw'r ymgeisydd wedi ei anghymhwys o dan adran 16(A1) o Ddeddf 2006 (anghymhwys) rhag bod yn aelod o'r Senedd).

Mae erthygl 44 yn gwneud diwygiadau i ddarpariaethau amrywiol yn Atodlen 5 i Orchymyn 2007 (rheolau etholiadau Senedd Cymru). Diben y diwygiadau hyn yw rhoi effaith i'r newid sydd wedi ei wneud yn Rhan 4 o Ddeddf 2020 sy'n cyflwyno gwahaniaeth rhwng anghymhwys rhag bod yn aelod o'r Senedd ac anghymhwys rhag bod yn ymgeisydd ar gyfer y Senedd ac yn aelod ohoni.

Mae erthygl 44(5) yn hepgor rheol 19 o Atodlen 5 gan nad yw anghymhwys o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 yn gymwys i etholiadau Senedd Cymru mwyach o ganlyniad i Ran 4 o Ddeddf 2020.

Mae Rhan 5 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth i ymgeiswyr yn etholiadau Senedd Cymru ofyn i'w cyfeiriadau cartref beidio â chael eu cyhoeddi. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn gymwys i'r rheini sy'n gweithredu fel eu hasiantwyr eu hunain. Pan fo personau o'r fath yn gofyn i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, ni fydd eu cyfeiriad cartref yn ymddangos ar ddatganiad o bersonau a enwebwyd a'r papur pleidleisio. Fodd bynnag, er hynny, mae'n ofynnol iddynt ddarparu, pan fônt yn breswylwyr yn y Deyrnas Unedig, yr etholaeth y maent yn byw yn ddi, neu pan fônt yn preswylio y tu allan i'r Deyrnas Unedig, enw'r wlad y maent yn byw yn ddi.

Mae erthyglau 47 i 52 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn sy'n cynnwys ffurflen cyfeiriad cartref y gall ymgeiswyr ofyn yn ddi i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ffurflenni rhagnodedig eraill yn Atodlen 10 i Orchymyn 2007.

Mae erthyglau 53 i 55 yn diwygio erthyglau 23 a 23A o Orchymyn 2007 ac Atodlen 4 iddo. Bydd y diwygiadau a wneir i erthygl 23 yn golygu na fydd y swyddogion canlyniadau etholaethol a rhanbarthol â'r

hawl i adennill taliadau ond mewn cysylltiad â'r treuliau hynny yr eir iddynt mewn cysylltiad ag etholiad Senedd Cymru ac na fydd ganddynt yr hawl mwyach i adennill taliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir. O ganlyniad i hyn, mae erthygl 23A o Orchymyn 2007, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch taliadau am wasanaethau a ddarperir wedi ei dirymu.

Mae Rhan 7 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi'r Comisiwn Etholiadol i lunio cod ymarfer mewn perthynas â threuliau etholiad ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau Senedd Cymru. Mae erthygl 56 yn dirymu erthygl 63(8) o Orchymyn 2007. Fe'i disodlir gan y ddarpariaeth newydd yn erthygl 57 sydd i'w chynnwys yn Atodlen 7 (treuliau etholiad) i Orchymyn 2007.

Yn unol â hyn, caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo Cod drafft sydd wedi ei lunio gan y Comisiwn, gydag addasiadau neu hebddydnt. Rhaid iddynt wedyn osod y Cod, ar ffurf ddrafft, gerbron Senedd Cymru. O fewn 40 niwrnod, caiff y Senedd wneud penderfyniad i beidio â chymeradwyo'r Cod drafft. Os yw hynny'n digwydd, ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas ag ef. Ond os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod ar ffurf y drafft a osodwyd a rhaid i'r Comisiwn ei gyhoeddi.

Mae Rhan 8 o'r Gorchymyn hwn yn dirymu cyfeiriadau sydd wedi dyddio at Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998"). Roedd y cyfeiriadau hyn yn rhai trosiannol eu natur ac felly maent yn ddiangen bellach.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy. XX)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

Gorchymyn Senedd Cymru
(Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio)
2020

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(1) a 157(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1) ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(2).

Yn unol ag adran 7(1) a (2)(f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(3), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn iddo gael ei wneud.

Yn unol ag adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(1) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(2) 1993 p. 38.

(3) 2000 p. 41; amnewidiwyd is-adran (2)(f) gan O.S. 2007/1388 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020.

(2) Daw i rym ar [XX].

(3) Nid yw erthyglau 3 i 62 yn gymwys ond mewn cysylltiad ag etholiad y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr “Gorchymyn 2007” yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(1).

Diwygio Gorchymyn 2007

2. Mae Gorchymyn 2007 wedi ei ddiwygio yn unol ag erthyglau 3 i 62.

RHAN 2

Ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3. Yn erthyl 2(1) (dehongli), yn lle'r diffiniad o “the Assembly” rhodder—

““Senedd Cymru” means the Senedd Cymru constituted by the 2006 Act;”.

4. Mae Atodlen 10 (atodiad ffurflenni) wedi ei diwygio fel a ganlyn, ac mae'r diwygiadau hynny wedi eu gwneud i'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg o'r ffurflenni.

5. Yn ffurflen CA (ffurflen papur dirprwy)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “etholiad(au) i'r Cynulliad” rhodder “etholiad(au) i Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “unrhyw etholiad i'r Cynulliad”, ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder “unrhyw etholiad i Senedd Cymru”;

(1) O.S. 2007/236. Diwygiwyd y Gorchymyn hwn gan O.S. 2009/1182; O.S. 2010/1142 (Cy. 101); O.S. 2010/2931; O.S. 2011/1441; O.S. 2011/2085; O.S. 2012/1479; O.S. 2013/388; O.S. 2013/591; O.S. 2015/664; O.S. 2016/272; O.S. 2016/292; adran 3 o Ddeddf Cymru 2014 (p. 29) ac adran 27 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

- (d) yn lle “etholiad i'r Cynulliad”, ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder “etholiad i Senedd Cymru”;
- (e) yn lle “etholiadau i'r Cynulliad”, ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder “etholiadau i Senedd Cymru”, ac yn lle “etholiadau'r Cynulliad” rhodder “etholiadau Senedd Cymru”;
- (f) yn lle'r geiriau o “yn achos etholiad cyffredin” hyd at “yr etholiad rhanbarthol ar ei gyfer” rhodder—
“mewn etholiad cyffredinol i Senedd Cymru yn yr un etholaeth neu etholaethau Senedd Cymru yn yr un rhanbarth etholiadol Senedd Cymru”.

6. Yn ffurflen CB (ffurflen dystysgrif gyflogaeth), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

7. Yn ffurflenni CC1, CC2 a CC3 (ffurflen datganiad pleidleisio drwy'r post)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru”, ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “aelodau etholaethol y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “aelodau etholaethol Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “aelodau rhanbarthol y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “aelodau rhanbarthol Senedd Cymru”.

8. Yn ffurflen CD (datganiad am bapurau pleidleisio drwy'r post)—

- (a) yn lle “Etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Etholiad i Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “Etholaeth y Cynulliad” rhodder “Etholaeth Senedd Cymru”.

9. Yn ffurflen CE (ffurflen papur enwebu: etholiad etholaethol), yn lle “yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “yn Senedd Cymru”.

10. Yn ffurflen CF (ffurflen dystysgrif y cyfeirir ati yn rheol 5(1)), yn lle “Etholaeth Gynulliad” rhodder “Etholaeth Senedd Cymru”.

11. Yn ffurflen CG (ffurflen dystysgrif y cyfeirir ati yn rheol 5(3)), yn lle “Etholaeth Cynulliad” rhodder “Etholaeth Senedd Cymru”.

12. Yn ffurflen CH (ffurflen papur enwebu unigolyn: etholiad rhanbarthol), yn lle “yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “yn Senedd Cymru”.

13. Yn ffurflen CI (ffurflen papur enwebu plaid: etholiad rhanbarthol), yn lle “yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “yn Senedd Cymru”.

14. Yn ffurflen CK (papur pleidleisio etholaethol)—

- (a) yn lle “Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “Aelod Cynulliad” rhodder “yr Aelod o’r Senedd”.

15. Yn ffurflen CK1 (cyfarwyddydau o ran argraffu’r papur pleidleisio: etholiad etholaethol)—

- (a) yn lle “Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Etholiad Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “Aelod Cynulliad” rhodder “yr Aelod o’r Senedd”.

16. Yn ffurflen CL (papur pleidleisio rhanbarthol)—

- (a) yn lle “Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Etholiad Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “Aelod Cynulliad” rhodder “Aelod o’r Senedd”;
- (c) yn lle “etholaeth Cynulliad” rhodder “etholaeth Senedd Cymru”.

17. Yn ffurflen CL1 (cyfarwyddydau o ran argraffu’r papur pleidleisio: etholiad rhanbarthol)—

- (a) yn lle “Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Etholiad Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “Aelod Cynulliad” rhodder “yr Aelod o’r Senedd”;
- (c) yn lle “Assembly constituency” rhodder “Senedd Cymru constituency”.

18. Yn ffurflen CM (ffurflen rhestr rhif cyfatebol), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

19. Yn ffurflen CM1 (ffurflen rhestr rhif cyfatebol ar gyfer polau cyfun), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

20. Yn ffurflen CN1 (ffurflen cerdyn pleidleisio etholwr), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

21. Yn ffurflen CN2 (ffurflen cerdyn pleidleisio dirprwy), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

22. Yn ffurflen CN3 (ffurflen cerdyn pleidlais bost), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

23. Yn ffurflen CN4 (ffurflen cerdyn pleidlais bost dirprwy), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

24. Yn ffurflen CO (ffurflen rhestr rhif cyfatebol i’w defnyddio gan swyddogion llywyddu mewn gorsafoedd pleidleisio), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

25. Yn ffurflen CO1 (ffurflen rhestr rhif cyfatebol gyfun i’w defnyddio gan swyddogion llywyddu mewn gorsafoedd pleidleisio), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

26. Yn ffurflen CQ (ffurflen datganiad i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

27. Yn ffurflen CQ1 (ffurflen datganiad i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru”, ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “Senedd Cymru”.

28. Yn ffurflen CR (ffurflen ardystio sy’n datgan dychwelyd ymgeisydd mewn etholiad etholaethol)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “un o etholaethau'r Cynulliad” rhodder “un o etholaethau Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

29. Yn ffurflen CS (ffurflen ardystio sy’n datgan dychwelyd ymgeisydd mewn etholiad ranbarthol)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad” rhodder “un o ranbarthau etholiadol Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

30. Yn ffurflen CT (ffurflen ardystio: rhanbarth etholiadol; sedd i aros yn wag tan etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad” rhodder “un o ranbarthau etholiadol Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “tan yr etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad” rhodder “tan etholiad cyffredinol nesaf Senedd Cymru”;

- (d) yn lle “Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Cymru”.

31. Yn ffurflen CU (ffurflen datganiad: treuliau a dynnwyd i gefnogi ymgeisydd)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “etholaeth Gynulliad” rhodder “etholaeth Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “rhanbarth etholiadol Cynulliad” rhodder “rhanbarth etholiadol Senedd Cymru”.

32. Yn ffurflen CV (ffurflen datganiad: treuliau a dynnwyd i gefnogi ymgeisydd)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “etholaeth Gynulliad” rhodder “etholaeth Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “rhanbarth etholiadol Cynulliad” rhodder “rhanbarth etholiadol Senedd Cymru”.

33. Yn ffurflen CW (datganiad treuliau etholiad ymgeisydd)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “rhanbarth etholiadol y Cynulliad” rhodder “rhanbarth etholiadol Senedd Cymru”.

34. Yn ffurflen CX (ffurflen datganiad gan ymgeisydd etholaethol neu unigol o ran treuliau etholiad)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “etholaeth Gynulliad” rhodder “etholaeth Senedd Cymru”;
- (c) yn lle “rhanbarth etholiadol Cynulliad” rhodder “rhanbarth etholiadol Senedd Cymru”.

35. Yn ffurflen CY (ffurflen datganiad gan ymgeiswyr rhestr plaid o ran treuliau etholiad)—

- (a) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” ym mhennawd y ffurflen rhodder “Senedd Cymru”;
- (b) yn lle “y Cynulliad” rhodder “Senedd Cymru”.

RHAN 3

Estyn yr hawl i bleidleisio

Diwygio erthygl 14 (troseddau)

36. Ym mharagraff 1 o erthygl 14, ar ôl “A person who” mewnosoder “has attained voting age and”.

Diwygio Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau Senedd Cymru)

37.—(1) Mae Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau Senedd Cymru⁽¹⁾) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(9)—

- (a) ar ddiwedd paragraff (c), hepgorer “and”;
- (b) ar ddiwedd paragraff (d), hepgorer “.” a mewnosoder “; and”;
- (c) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

“(e) in the case of a person who is, or has been, a child looked after by a local authority, the address at which they are resident or the address shown on the declaration of local connection in accordance with section 7B(3)(d) of the 1983 Act.”

(3) Ym mharagraff 5(2)(a)(i), yn lle “18” rhodder “16”.

(4) Ym mharagraff 5(4)(a), yn lle “18” rhodder “16”.

(5) Ym mharagraff 6A(4)(b)(i), yn lle “18” rhodder “16”.

(6) Ym mharagraff 6A(6)(b)(ii), yn lle “18” rhodder “16”.

(7) Ar ôl paragraff 14 (amodau o ran defnyddio, cyflenwi ac arolygu cofnodion neu restrau o bleidleisiwr absennol) mewnosoder—

“Protection of information about persons aged under 16

14A.—(1) A young person’s information (other than any information by which the person’s date of birth may be ascertained) may be disclosed in a version or copy of an absent voters record or list supplied in accordance with the relevant provisions of this Order in relation to Senedd Cymru elections, but only so far as it is necessary to do so for the purposes of or in

(1) Mae'r cyfeiriadau yng Ngorchymyn 2007 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

connection with an election at which the young person will be entitled to vote.

(2) In this paragraph, “young person’s information” is to be construed in accordance with section 24(2) of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020.”

Diwygio Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru)

38. Yn Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru)—

- (a) yn rheol 41(1)(b), yn lle “18” rhodder “16”;
- (b) yn rheol 41(2), yn lle “18” rhodder “16”;
- (c) yn rheol 48(3)(b), yn lle “18” rhodder “16”.

Diwygio Atodlen 10 (atodiad ffurflenni)

39. Mae Atodlen 10 (atodiad ffurflenni) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

40. Yn ffurflen CA (ffurflen papur dirprwy)—

- (a) yn lle “18” rhodder “16”;
- (b) ar ôl “Gweriniaeth Iwerddon,” mewnosoder “yn ddinesydd tramor cymhwysol”.

41. Yn ffurflen CQ (ffurflen datganiad i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), yn lle “18” rhodder “16”.

42. Yn ffurflen CQ1 (ffurflen datganiad i’w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau), yn lle “18” rhodder “16”.

RHAN 4

Anghymhwysyo

Diwygio erthygl 34 (datganiadau anwir mewn papurau enwebu etc)

43. Yn erthygl 34(5)—

- (a) hepgorer is-baragraffau (a) a (b);
- (b) yn is-baragraff (c), yn lle’r geiriau o “or to the best of his knowledge” hyd at y diwedd rhodder “under section 16(A1) of the 2006 Act (disqualification from being Senedd member)”.

Diwygio Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru)

44.—(1) Mae Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheol 9—

(a) ym mharagraff (4)(c)—

- (i) hepgorer paragraff (i);
- (ii) ym mharagraff (ii), yn lle'r geiriau o “for membership of the Assembly” hyd at y diwedd rhodder “under section 16(A1) of the 2006 Act from being a Member of the Senedd, and from being a candidate to be a Member of the Senedd”;

(b) hepgorer paragraff (7).

(3) Yn rheol 13—

(a) ym mharagraff (2)—

- (i) yn is-baragraff (c), yn lle “by the Representation of the People Act 1981” rhodder “under section 16(A1) of the 2006 Act from being a Member of the Senedd, and from being a candidate to be a Member of the Senedd”;
- (ii) yn is-baragraff (d), yn lle “section 5(6) of the 1998 Act” rhodder “section 7(6) of the 2006 Act”;
- (iii) yn is-baragraff (e), yn lle “section 4(7) of the 1998 Act” rhodder “section 7(1) of the 2006 Act”;

(b) hepgorer paragraff (8).

(4) Yn rheol 14(4)(b), yn lle “by the Representation of the People Act 1981” rhodder “under section 16(A1) of the 2006 Act from being a Member of the Senedd, and from being a candidate to be a Member of the Senedd”.

(5) Hepgorer rheol 19.

RHAN 5

Cadw cyfeiriad cartref ymgeisydd yn ôl

Diwygio erthygl 37 (penodi asiant etholiadol)

45.—(1) Mae erthygl 37 (penodi asiant etholiad) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (9), ar ôl “agent” mewnosoder “who is not also a candidate”.

(3) Ar ôl paragraff (9) mewnosoder—

“(10) Upon the name and address of an election agent who is also a candidate being declared to the returning officer—

- (a) the appropriate returning officer must give public notice of that name, and save where the agent has requested on a home address form not to make his home address public, the address. If the

address is not to be made public, the constituency or country will be released, as required by Schedule 5 to this Order;

- (b) in the case of the regional election, the regional returning officer must give notice to the constituency returning officer for each Senedd Cymru constituency in the Senedd Cymru electoral region of the name, and save where the agent has requested on a home address form not to make his home address public, the address. If the address is not to be made public, the constituency or country will be released, as required by Schedule 5 to this Order.”

Diwygio Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru)

46.—(1) Mae Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheol 4 (enwebu ymgeiswyr mewn etholiad etholaethol)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl “names;” mewnosoder “and”;

(ii) hepgorer is-baragraff (b);

(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) The constituency nomination paper must be accompanied by a form (in this Schedule referred to as the “home address form”) which states the candidate’s—

(a) full names; and

(b) home address in full.

(4B) The home address form as set out in form CZ in Schedule 10—

(a) may contain a statement made and signed by the candidate that the candidate requires their home address not to be made public; and

(b) if it does so, must—

(i) state the constituency within which that address is situated; or

(ii) where the candidate’s home address is outside the United Kingdom, state the country in which it is situated.

(4C) Where a home address form has been completed and returned with the constituency nomination paper and the candidate has

requested that their home address not be made public, the information as provided in paragraph (4B)(b) only will appear on the statement of persons nominated and the ballot paper.”;

(c) ar ôl paragraff (6) mewn osoder—

“(7)(a) During ordinary office hours on any day, after the latest time for delivery of constituency nomination papers and before the date of the poll, the following persons may inspect the home address form of a candidate (“candidate A”)—

- (i) a person standing nominated as a candidate (“candidate B”) in the same constituency as candidate A;
 - (ii) the election agent, proposer or seconder of candidate B; or
 - (iii) where candidate B is acting as their own election agent, any person nominated by candidate B;
- (b) where a person has been nominated by more than one constituency nomination paper, the reference to proposer or seconder in sub-paragraph (a)(ii) is a reference to—
- (i) the proposer or seconder on the nomination paper that the candidate may select; or
 - (ii) in the absence of such a selection, the nomination paper which was first delivered in accordance with rule 4(1);
- (c) nothing in this rule permits any person to take a copy of, or extracts from, any home address form;
- (d) the returning officer must not permit a home address form to be inspected otherwise than in accordance with this rule, or for some other purpose authorised by law.

(8)(a) The returning officer must destroy each candidate’s home address form—

- (i) on the next day following the 35th day after the officer has returned the name of the Member elected; or
- (ii) if an election petition questioning the election or return is presented before that day, as soon as is practicable following the conclusion of proceedings on the petition or on appeal from such proceedings;

(b) for the purposes of sub-paragraph (a), any day falling within rule 2 must be disregarded.”

(3) Mae rheol 6 (enwebu ymgeiswyr unigol mewn etholiad rhanbarthol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl “names;” mewnosoder “and”;

(ii) hepgorer is-baragraff (b);

(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) The individual nomination paper must be accompanied by a form (in this Schedule referred to as the “home address form”) which states the candidate’s—

(a) full names; and

(b) home address in full.

(4B) The home address form as set out in form CZ in Schedule 10—

(a) may contain a statement made and signed by the candidate that the candidate requires their home address not to be made public; and

(b) if it does so, must—

(i) state the constituency within which that address is situated; or

(ii) where the candidate’s home address is outside the United Kingdom, state the country in which is it situated.

(4C) Where a home address form has been completed and returned with the regional nomination paper and the candidate has requested that their home address not be made public, the information as provided in paragraph (4B)(b) only will appear on the statement of persons nominated and the ballot paper.”;

(c) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(6)(a) During ordinary office hours on any day, after the latest time for delivery of regional nomination papers and before the date of the poll, the following persons may inspect the home address form of a candidate (“candidate A”—

(i) person standing nominated as a candidate (“candidate B”) in the same region as candidate A;

(ii) the election agent, proposer or seconder of candidate B; or

(iii) where candidate B is acting as their own election agent, any person nominated by candidate B;

- (b) where a person has been nominated by more than one regional nomination paper, the reference to proposer or seconder in sub-paragraph (a)(ii) is a reference to—
 - (i) the proposer or seconder on the nomination paper that the candidate may select; or
 - (ii) in the absence of such a selection, to the nomination paper which was first delivered in accordance with rule 4(1);
- (c) nothing in this rule permits any person to take a copy of, or extracts from, any home address form;
- (d) the returning officer must not permit a home address form to be inspected otherwise than in accordance with this rule, or for some other purpose authorised by law.

(7)(a) The returning officer must destroy each candidate's home address form—

- (i) on the next day following the 35th day after the officer has returned the name of the member elected; or
- (ii) if an election petition questioning the election or return is presented before that day, as soon as is practicable following the conclusion of proceedings on the petition or on appeal from such proceedings;
- (b) for the purposes of sub-paragraph (a), any day falling within rule 2 must be disregarded.”

(4) Ym mharagraff (4) o reol 7 (enwebu pleidiau ac ymgeiswyr rhestr plaid mewn etholiad rhanbarthol)—

- (a) yn is-baragraff (b), ar ôl “full” mewnosoder “only where the candidate has not requested that their home address be disclosed in a home address form”;
- (b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

- “(c) where the candidate has requested that their home address not be made public—
 - (i) state the constituency within which that address is situated; or
 - (ii) where the candidate's home address is outside the United Kingdom, state the country in which it is situated.”

(5) Ym mharagraff (2) o reol 16 (etholiad etholaethol; cyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd), ar ôl "addresses" mewnosoder "or such relevant information as provided in the home address form".

(6) Ym mharagraff (3)(a) o reol 17 (etholiad rhanbarthol: cyhoeddi datganiad o'r pleidiau a'r personau eraill a enwebwyd), ar ôl "addresses" mewnosoder "or such relevant information as provided in the home address form".

(7) Ym mharagraff (3)(a) o reol 24 (y papur pleidleisio mewn etholiad etholaethol), ar ôl "nominated" mewnosoder "(but must not contain a candidate's home address where a candidate has completed a home address form and requested that their address not be made public)".

(8) Ym mharagraff (3)(a) o reol 25 (y papur pleidleisio mewn etholiad rhanbarthol), ar ôl "nominated" mewnosoder "(but must not contain a candidate's home address where a candidate has completed a home address form and requested that their address not be made public)".

Diwygio Atodlen 10 (atodiad ffurflenni)

47. Mae Atodlen 10 (atodiad ffurflenni) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

48. Yn ffurflen CE (ffurflen papur enwebu: etholiad etholaethol), yn y 6^{ed} golofn o'r tabl ar ôl "rhif ffôn hefyd" mewnosoder "yr etholaeth y mae'r cyfeiriad cartref wedi ei leoli ynnddi neu wlad y cyfeiriad cartref, os yw y tu allan i'r Deyrnas Unedig".

49. Yn ffurflen CH (ffurflen papur enwebu unigolyn: etholiad rhanbarthol), hepgorer y 6^{ed} golofn o'r tabl o'r enw "Cyfeiriad cartref yn llawn (cynhwyswch y rhif ffôn hefyd)".

50. Yn ffurflen CI (ffurflen papur enwebu plaid: etholiad rhanbarthol), yn y 5^{ed} golofn o'r tabl ar ôl "rhif ffôn hefyd" mewnosoder "yr etholaeth y mae'r cyfeiriad cartref wedi ei leoli ynnddi neu wlad y cyfeiriad cartref, os yw y tu allan i'r Deyrnas Unedig".

51. Yn ffurflen CK (papur pleidleisio etholaethol), ar ôl "Schedule 5" mewnosoder "and rule 24(3)(a) (the ballot paper at a constituency election) provides that the candidate's home address be omitted from the Ballot paper where the candidate has completed a home address form requesting that their home address not be disclosed".

52. Ar ôl ffurflen CY mewnosoder y ffurflen sydd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

RHAN 6

Taliadau swyddogion canlyniadau

Taliadau swyddogion canlyniadau

53.—(1) Mae erthygl 23 (taliadau gan y swyddog canlyniadau ac iddo) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

- (a) hepgorer “Subject to article 23A,”;
- (b) hepgorer “services rendered, or”;
- (c) hepgorer “the services were necessarily rendered, or”;
- (d) hepgorer “services rendered or”.

(3) Ym mharagraff (2), yn y ddu le y mae'n ymddangos, hepgorer “services or”.

(4) Ym mharagraff (3)(b), hepgorer “services or”.

(5) Ym mharagraff (4)(a), hepgorer “render the services or”.

54. Hepgorer erthygl 23A.

55. Ym mharagraff 3(1) o Atodlen 4, hepgorer paragraff (aa).

RHAN 7

Y Comisiwn Etholiadol

Canllawiau gan y Comisiwn Etholiadol

56. Hepgorer erthygl 63(8).

Diwygio Atodlen 7 (treuliau etholiad)

57. Yn Atodlen 7 (treuliau etholiad), ar ôl paragraff 13 mewnosoder—

“PART 3

Supplemental

Guidance by the Commission

14.—(1) The Commission may prepare, and from time to time revise, a code of practice for Senedd Cymru elections giving—

- (a) guidance as to the matters which do, or do not, fall within Part 1 or Part 2 of this Schedule;
- (b) guidance supplementing the definition in article 63(3) as to the cases or circumstances in which expenses are,

or are not, to be regarded as incurred for the purposes of a candidate's election.

(2) Once the Commission have prepared a draft code under this paragraph, they must submit it to the Welsh Ministers for approval.

(3) The Welsh Ministers may approve a draft code with or without modifications.

(4) Once the Welsh Ministers have approved a draft code they must lay a copy of the draft, in the form in which they have approved it, before Senedd Cymru.

(5) If the draft incorporates modifications, the Welsh Ministers must at the same time lay before Senedd Cymru a statement of their reasons for making them.

(6) If, within the 40-day period, Senedd Cymru resolves not to approve the draft, the Welsh Ministers must take no further steps in relation to it.

(7) If no such resolution is made within the 40-day period—

- (a) the Welsh Ministers must issue the code in the form of the draft laid before Senedd Cymru,
- (b) the code comes into force on the date appointed by the Welsh Ministers by order, and
- (c) the Commission must arrange for the Code to be published in such manner as the Commission thinks appropriate.

(8) Sub-paragraph (6) does not prevent a new draft code from being laid before Senedd Cymru.

(9) In this paragraph, "the 40-day period", in relation to a draft code, means the period of 40 days beginning with the day on which the draft is laid before Senedd Cymru, no account being taken of any period during which Senedd Cymru is dissolved or is in recess for more than four days.

(10) In this paragraph, references to a draft code include a revised draft code."

RHAN 8

Diwygiadau eraill

Diwygio erthygl 2(1) (dehongli)

58.—(1) Mae erthygl 2(1) (dehongli) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y diffiniad o “the 2007 Assembly general election”.

(3) Yn lle’r diffiniad o “Presiding Officer of the Assembly” rhodder—

“‘Presiding Officer of Senedd Cymru’ is to be construed in accordance with section 25 of the 2006 Act;”.

Diwygio erthygl 137 (dehongli Rhan 4)

59. Yn erthygl 137 (dehongli Rhan 4), hepgor paragraff (2).

Diwygio erthygl 149 (darpariaeth arbed a throsiannol o ran anghymwysterau mewn cysylltiad ag etholiadau Senedd Cymru)

60. Hepgorer erthygl 149.

Diwygio Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru)

61.—(1) Mae Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheol 14 (penderfyniadau o ran diliusrwydd papurau enwebu)—

(a) ym mharagraff (4)(c), yn lle “section 5(5) of the 1998 Act” rhodder “section 7(5) of the 2006 Act”;

(b) hepgor paragraff (11).

(3) Yn rheol 23 (etholiad i’w gynnal drwy bleidlais)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “section 4(4) of the 1998 Act” rhodder “section 6(4) of the 2006 Act”;

(b) ym mharagraff (2), yn lle “sections 4(5) and (6) and 5 to 7 of the 1998 Act” rhodder “sections 6(5) and 7 to 9 of the 2006 Act”;

(c) hepgor paragraff (3).

(4) Yn rheol 62 (datgan canlyniad mewn etholiad etholaethol), hepgor paragraff (5).

(5) Yn rheol 65 (dychwelyd neu fforffedu ernes)—

(a) ym mharagraff (8)—

(i) yn is-baragraff (i), yn lle “section 4(7) or section 8(7) of the 1998 Act” rhodder

“sections 7(1) and 10(9) of the 2006 Act”;

- (ii) yn is-baragraff (ii), yn lle “section 5(5) or, as the case may be section 5(6) of the 1998 Act” rhodder “section 7(5) or, as the case may be section 7(6) of the 2006 Act”;

(b) hepgorer paragraff (9).

(6) Yn rheol 78 (swyddi gwag: ethol aelodau rhanbarthau etholiadol yn ffurfiol)—

- (a) ym mharagraff (11), hepgorer “, in respect of a vacancy occurring before the 2007 Assembly general election, section 9(7)(b) of the 1998 Act and in respect of vacancies occurring after that election,”;

(b) hepgorer paragraff (12).

(7) Ym mharagraff (7) o reol 79 (ethol aelodau o'r Senedd yn ffurfiol a chofnodi etholiadau etc)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle'r geiriau o “, section 8(6) of the 1998 Act” hyd at y diwedd rhodder “section 10(7) of the 2006 Act; and”;

- (b) yn is-baragraff (b), yn lle'r geiriau o “, section 9(7)(a) of the 1998 Act” hyd at y diwedd rhodder “section 11(7)(a) of the 2006 Act.”

Diwygio Atodlen 9 (addasu Rheolau Deisebau Etholiadol 1960)

62.—(1) Mae Atodlen 9 (addasu Rheolau Deisebau Etholiadol 1960) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3 (rheol 2(3) o Reolau 1960 (swyddog rhagnodedig)), hepgorer “under Part 1 of the Government of Wales Act 1998 or, as the case may be.”.

(3) Ym mharagraff 4 (rheol 4(1) o Reolau 1960 (ffurf deiseb)), yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

“(b) “the Clerk of the Crown” shall be construed as a reference to the Clerk; and”.

(4) Ym mharagraff 8—

(a) yn is-baragraff (a)—

(i) hepgorer paragraff (i);

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle “any subsequent” rhodder “an”;

(iii) hepgorer paragraff (iii);

(iv) ym mharagraff (iv), yn lle “any subsequent Assembly” rhodder “a Senedd Cymru”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle'r geiriau o “[or, in the case of a return under section 9 of the Government of Wales Act 1998” hyd at

“section 11 of the Government of Wales Act 2006]” rhodder “[*or, in the case of a return under section 11 of the Government of Wales Act 2006*, claims to have had a right to be returned under section 11 of the Government of Wales Act 2006]”;

- (c) yn is-baragraff (c)—
 - (i) hepgorer “* section 9(6) of the Government of Wales Act 1998/”;
 - (ii) hepgorer “(**delete as appropriate*)”;
- (d) yn is-baragraff (e)(ii)—
 - (i) hepgorer “* section 9 of the Government of Wales Act 1998/”;
 - (ii) hepgorer “(**delete as appropriate*)”.

YR ATODLEN Erthygl 52

Ffurflen a fewnosodir

FFURFLEN CZ – Rheol 4 (4B) a 6 (4B) o Atodlen 5																																							
Etholiadau Senedd Cymru		Ffurflen cyfeiriad cartref																																					
Enw'r etholaeth:		Dyddiad yr etholaeth:																																					
<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i chi gwybodaeth Rhan 1 • Cwthbech Rhan 2 dim ond os os nad ydych yn dymuno i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi. 																																							
Rhan 1: Ffurflen cyfeiriad cartref gan bob ymgesydd																																							
Enw llawn yr ymgesydd:																																							
Cyfeiriad cartref (yn Rhan):																																							
Cod post:																																							
Diwedd Rhan 1																																							
<p>Os ydych yn ceisio hawau Rhan 1 yn unig dianfonwch y ffurflen hon gyda'r papur emwebu at y Swyddog Cenfynadau gyda'r papur emwebu perthnasol.</p> <table border="1" style="width: 100%;"> <tr> <td colspan="5" style="text-align: center;">Rhan 2: Dim ond i'w chwblhau os nad ydych yn dymuno i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi</td> </tr> <tr> <td colspan="5"> <p>Os ydych yn golyn i'ch cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi yna'n fydd eich cyfeiriad yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwlewyd nac ar y papur pleidleisiau.</p> <p>Os ydych yn deus pesta a chyhoeddi eich cyfeiriad cartref, bydd yr etholaeth y mae eich cyfeiriad cartref ymddyngwr (neu'r aled, os yw y lu allan i'r DU) yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwlewyd a'i papurau pleidleisiau.</p> </td> </tr> <tr> <td colspan="5" style="text-align: center;">Datganiad: Yr wyf yn ei ganeud yo olynol i'm cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi.</td> </tr> <tr> <td>Yr etholaeth y mae fy nglymeriad cartref ynddi:</td> <td colspan="4"> <p>(Iffowch enw'r etholaeth Senedd Cymru)</p> <p><i>Nesu</i></p> </td> </tr> <tr> <td>Mae hy nglymeriad cartref y tu allan i'r DU. Mae fy nglymeriad cartref yn:</td> <td colspan="4"> <p>(Iffowch enw'r wlad)</p> <p><i>Llofnod yr ymgesydd sy'n cwblhau Rhan 2.</i></p> </td> </tr> <tr> <td>Llofnod yr ymgesydd:</td> <td colspan="4"></td> </tr> <tr> <td>Dyddiad:</td> <td colspan="4"></td> </tr> </table>					Rhan 2: Dim ond i'w chwblhau os nad ydych yn dymuno i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi					<p>Os ydych yn golyn i'ch cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi yna'n fydd eich cyfeiriad yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwlewyd nac ar y papur pleidleisiau.</p> <p>Os ydych yn deus pesta a chyhoeddi eich cyfeiriad cartref, bydd yr etholaeth y mae eich cyfeiriad cartref ymddyngwr (neu'r aled, os yw y lu allan i'r DU) yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwlewyd a'i papurau pleidleisiau.</p>					Datganiad: Yr wyf yn ei ganeud yo olynol i'm cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi.					Yr etholaeth y mae fy nglymeriad cartref ynddi:	<p>(Iffowch enw'r etholaeth Senedd Cymru)</p> <p><i>Nesu</i></p>				Mae hy nglymeriad cartref y tu allan i'r DU. Mae fy nglymeriad cartref yn:	<p>(Iffowch enw'r wlad)</p> <p><i>Llofnod yr ymgesydd sy'n cwblhau Rhan 2.</i></p>				Llofnod yr ymgesydd:					Dyddiad:				
Rhan 2: Dim ond i'w chwblhau os nad ydych yn dymuno i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi																																							
<p>Os ydych yn golyn i'ch cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi yna'n fydd eich cyfeiriad yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwlewyd nac ar y papur pleidleisiau.</p> <p>Os ydych yn deus pesta a chyhoeddi eich cyfeiriad cartref, bydd yr etholaeth y mae eich cyfeiriad cartref ymddyngwr (neu'r aled, os yw y lu allan i'r DU) yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwlewyd a'i papurau pleidleisiau.</p>																																							
Datganiad: Yr wyf yn ei ganeud yo olynol i'm cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi.																																							
Yr etholaeth y mae fy nglymeriad cartref ynddi:	<p>(Iffowch enw'r etholaeth Senedd Cymru)</p> <p><i>Nesu</i></p>																																						
Mae hy nglymeriad cartref y tu allan i'r DU. Mae fy nglymeriad cartref yn:	<p>(Iffowch enw'r wlad)</p> <p><i>Llofnod yr ymgesydd sy'n cwblhau Rhan 2.</i></p>																																						
Llofnod yr ymgesydd:																																							
Dyddiad:																																							

Dianfonwch at y Swyddog Cenfynadau gyda'r papur emwebu perthnasol.